

HYSBYSIAD STATUDOL I GAU YSGOL MAES EDWIN, LÔN YR YSGOL, MYNYDD Y FFLINT, SIR Y FFLINT, CH6 5QR

CYNGOR SIR Y FFLINT

Hysbysir, dryw hyn, yn unol ag Adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND ("yr Awdurdod Lleol"), ar ôl ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig:-

- **Cau Ysgol Maes Edwin, Lôn yr Ysgol, Mynydd y Fflint, Sir y Fflint CH6 5QR ar 31 Awst 2016.**

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint a chaiff ei chynnal gan yr Awdurdod Lleol.

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion. Mae adroddiad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, ymatebion y cynigydd a sylwadau Estyn, ar gael ar wefan y Cyngor, sef www.siryfflint.gov.uk, neu gofynnwch am gopi drwy anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bwriedir cau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint ar 31 Awst 2016.


Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig bod y disgyblion presennol yn mynychu naill ai Ysgol Gwynedd, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, Ysgol Gynradd Cornist, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg neu Ysgol Owen Jones, Llaneanrain, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn dibynnu ar ddewis rhieni a nifer y lleoedd sydd ar gael. Gall rhieni fynegi eu dymuniad i anfon eu plant i'r ysgolion a nodwyd, neu ysgol arall, a bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu iddynt wneud hynny yn amodol ar Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 86 (3).

Bydd trafndiaeth yn cael ei gynnig i'r plant sy'n ddisgyblion yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint ar hyn o bryd, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Dylai unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny drwy anfon llythyr at Ian Budd, Prif Swyddog Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, neu drwy anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Sylwch y byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy'r e-bost neu drwy'r post yn cynnwys enw llawn a chyfeiriad post y person sy'n gwrthwynebu.

Llofnod

A handwritten signature in black ink that reads "Ian Budd". The signature is written in a cursive style.

Ian Budd

**Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid
ar ran Cyngor Sir y Fflint**

29 Ionawr 2016

Nodyn esboniadol

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad a caiff ei gynnig dim ond er mwyn egluro'r sefyllfa ymhellach ymhellach)

1. Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint ar 31 Awst 2016. Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint.
2. Cafodd y cynnig ei gynnwys yn y 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion' a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol i ymdrin â materion fel recriwtio penaethiaid, lleoedd gwag a chynaliadwyedd ysgolion.
3. Roedd cyfrifiad yr ysgol ym mis Ionawr 2015 yn dangos bod gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gyfanswm o 66 o ddisgyblion llawn amser (Derbyn – Blwyddyn 6) ar y gofrestr a bod lle i 76. Ym mis Ionawr 2015 felly roedd 38 o leoedd gwag, sy'n cyfateb i 47.8% o leoedd gwag.
4. Roedd cyfrifiad yr ysgol ym mis Medi 2015 yn dangos bod gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gyfanswm o 55 o ddisgyblion llawn amser (Derbyn – Blwyddyn 6) ar y gofrestr a bod lle i 76. Ym mis Medi 2015 felly roedd 21 o leoedd gwag, sy'n cyfateb i 27.63% o leoedd gwag.
5. Nodwyd y sail resymegol dros y cynnig yn y ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd fis Hydref 2015. Mae rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon i'w cael o'r cyfeiriad a nodir uchod.
6. Mae copi o Bolisi Derbyn Disgyblion yr Awdurdod Lleol i'w gael gan y Tîm Derbyn Disgyblion, Addysg ac Ieuenctid yn y cyfeiriad a nodir yn yr Hysbysiad uchod.
7. Mae copi o Bolisi Cludiant Ysgolion yr Awdurdod Lleol i'w gael ar www.siryfflint.gov.uk.
8. Mae'r Hysbysiad hwn yn nodi dechrau cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod rhwng 29 Ionawr 2016 a 26 Chwefror 2016 ac mae'n nodi'r cyfeiriad y dylid ei ddefnyddio os ydych am wrthwynebu'r cynigion.